Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod arbennig y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Lun, **14 Awst 2017** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

1-08/17: Presennol
Cadeirydd : Cyng Sian Williams; Cyng. Robert Cadwalader, Cyng William A Evans; Cyng. Phil Jones; Cyng. Dr E Tudor Jones Cyng Elizabeth Reagan; Cyng. Robert T Price; Cyng Wayne T Roberts; Cyng Eirwyn Williams;
Clerc – Dr Catrin Jones.

2-08/17 Ymddiheuriadau:
Cyng Elizabeth George; Cyng Dafydd Lloyd;

3-08/17: Datgan diddordeb
Ni wnaeth neb ddatgan diddordeb

4-08/17: Ceisiadau Cynllunio

a. C17/0750/35/CT Gwaith coed Ardal Cadwraeth/Tree works Conservation Area. Ty'n Garth, Ffordd Caernarfon, Criccieth LL52 0AP

   Penderfyniad: danfon sylwadau: Mae'r Cyngor yn fodlon i'r coed gael eu tocio ond nid eu torri lawr.

b. C17/0666/35/AM Cais amlinell ar gyfer codi adeiladau newydd ar gyfer datblygiad cymysg o 13 tŷ trefol, 24 fflat, ardal storio biniau cysylltiol, ardal cadw beics, maes parcio, unedau siop newydd a gardd. Tir cyferbyn/land opposite – Gwesty George IV Hotel, Stryd Fawr/High Street, Criccieth, Gwynedd LL52 0BS

   Penderfyniad: Gwrthwynebu a danfon sylwadau mewn llythyr i ategu y pwyntiau wnaed mewn llythyr blaenorol i'r Adran Gynllunio, dyddiedig 26 Mehefin 2017. Hefyd i wneud datganiad am safiad y Cyngor i'r Wasg.

c. C17/0779/35/LL (cais dderbyniwyd yn hwyrach na chyhoeddi yr agenda ac 'roedd angen ymateb cyn i'r Cyngor gwrdd nesaf) Codi estyniad yn nhu blaen yr eiddo yngyd â chreu teras yn y blaen a'r ochr: Glyn Peris, Morannedd, Criccieth, LL52 0PP

   Penderfyniad: dim gwrthwynebiad.

5-08/17 Archwiliad Allanol 2016/17

Nodwyd y bydd angen i'r Cyngor ail gymeradwyo y ffurflen ar gyfer yr archwiliad allanol i gywiro camgymeriad yng nghrynodeb o'r ffigurau. Roedd y cywiriad wedi ei dderbyn. Hefyd, roedd yr archwilwyr allanol wedi codi cwestiwn am yr arian wrth gefn – roedd y Clerc

wedi ysgrifennu i egluro am y cynlluniau ar gyfer Cynllun Cymunedol Criccieth ac yn aros am ymateb.

6-08/17: Derbyniadau

EM Cylliad a Thollau – ad-daliad TAW £871.81

7-08/17: Taliadau

- Cyngor Gwynedd £50.00 Siec 101077*
- Eka Architects £792.00 Siec 101078
- Dream Internet Solutions …£240.00 Siec 101079

Rhoddwyd ganiatad i'r clerc i dalu'r biliau. *Nodwyd bod y Clerc eisoes wedi cael caniatad i dalu y siec o £50.00 drwy ohebiaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.15 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar **nos Lun 4 Medi 2017**.
Bydd y rhaglen yma yn cau **26 Awst 2017**